CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL GORFFENNAF 19, 2022

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanfachreth

**Nos Fawrth, Gorffennaf 19, 2022 am 7:30 o'r gloch.**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**Presennol** Cynghorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith a Llion Williams. Hefyd Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Peredur Jenkins, Emlyn Robert a Rhun Prys Jones.

**3. Dewis Swyddogion**

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Karen G. Goswell
Is Gadeirydd: Meurig Ashton

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones
Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith
Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts
Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton
Un Llais Cymru (2): Karen G. Goswell, Meurig Ashton.

Penderfynwyd dewis swyddogion yn cyfarfod mis Medi.

**4. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 21, 2022.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 21, 2022.**

Eitem 11,ch. Llythyr ateb oddi (27/6/2022) wrth y Parc yn rhoi gwybod mae angen cael caniatad y tirfeddianwr i roi y fainc. Nid oes gan y Parc gwrthwynebiad i'r fainc ond ni fysant yn rhoi caniatad iddi ar dir y Parc oherwydd y posibilrwydd o broblemau codi yn gwneud hi'n anodd eu rheoli fel sbwriel.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.
Llythyr (6/7/2022) oddi wrth Mr Rhys Gwynn, Warden Lleol y Parc, yn rhoi

gwybod does dim gwrthwynebiad i'r fainc ond rhaid cael caniatad y tirfeddiannwr. Bydd y fainc yn cael ei osod yn edrych i lawr dros ddyffryn Wnion .

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Mrs Evans does dim gwrthwynebiad iddi roi mainc yn Moel Offrwm.

Eitem 11.f. Llythyr ateb (1/7/2022) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod:

a. mae agen caniatad cwrs dŵr cyffredin i wneud gwaith ar gwrs dŵr fel gwneud gwaith i ffos rhwng Glanwnion ac Esgairgawr. Nid ydynt yn caniatau hyn oni bai am fynediad..

b. Bydd angen gwneud gwaith trwsio i ganllaw'r bont a bydd hyn yn cael ei roi ar eu rhaglen waith; mae'r canllaw yn saff fel y mae.

Eitem 11.ff. Llythyr ateb (1/7/2022) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod mae gwaith ailwynebu'r ffordd rhwng Ffridd Goch Isaf a chroesffordd Ffordd Lefel ar eu rhaglen.

Eitem 11.g. Llythyr ateb (1/7/2022) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod bydd llythyr yn cael ei anfon i'r tirfeddianwr i docio'r coed ger Pont ar Ddibyn wedi Mis Medi oherwydd tymor nyddu.

## 7. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/6/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi ghwybod am eu Cyfarfod pwyllgor ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher, Mehefin 29. Bydd y cyfarfod ar Zoom (mae'r llythyr yn cynnwys y linc) Y siaradwr fydd Huw Antur o Gyngor Llanuwchllyn yn siarad am greu Cynllun Ardal Llanuwchllyn.

Amgáu mae Agenda i Cyfarfod Blynyddol ac Agenda i Cyfarfod Cyffredinol. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredin Pwyllgor Ardal Meirionnydd a gynhaliwyd ar nos Fercher 9 Mawrth 2022 gan ddefnyddio ZOOM.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (23/6/2022) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwahodd aelodau'r Cyngor Cymuned a'r cyhoedd i sesiwn galw heibio ynglŷn â gweithrediad coedwigaeth arfaethedig bydd yn cael ei wneud blwyddyn nesaf yn Rhydymain. Bydd y digwyddiad yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, Bala rhwng 2.00 a 7.00yh dydd Iau, Awst 11. Amgáu gyda'r llythyr oedd map yn dangos lleoliad y gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (26/6/2022) oddi wrth Katie Cranwell, Rhydymain sydd angen cyfyngiad ar

gyflymdra ar ffordd A494 o Hywel Dda i du draw i Cader Kitchens.

Gyda'r lleoliad ar ffin plwyfi Rhydymain a Llanuwchllyn anfonwyd y llythyr ymlaen i Cyngor Cymuned Llanuwchllyn iddynt hwy hefyd rhoi sylw i'r mater.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (11/7/2022) oddi wrth Cyngor Cymuned yn rhoi gwybod maent yn cefnogi'r syniad i gyfyngu cyflymder trafnidiaeth yn ardal ffatri Rhydymain.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon llythyr Katie Cranwell ymlaen i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a rhoi gwybod iddynt rydym ni a Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn cefnogi llythyr Katie Cranwell.

ch. Llythyr (27/6/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mehefin a Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (27/6/2022) oddi wrth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth am ddrafft maent wedi paratoi 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'. Maent angen sylwadau gan Cynghorau Cymuned / Tref a'r cyhoedd trwy lenwi holiadur ar wefan y Cyngor neu ar bapur. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan Medi 12, 2022

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (4/7/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Gweithdai Ardal Ni 2035 (Dolgellau, Llanelltyd, Ganllwyd, Mawddwy, Brithdir, Llanfachreth, Rhydymain, Arthog, Corris). I barhau gyda'u prosiect i adnabod beth sy'n bwysig i'r trigolion lleol, maent angen dau gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i fod yn bresennol yn eu gweithdai bydd yn cymryd lle ym mis Medi. Maent angen yr enwau erbyn Awst 8, 2022.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae Peredur a Karen yn dymuno bod yn y gweithdai.

e. Llythyr (14/7/2022) oddi wrth gynrychiolydd Liz Saville Roberts AS yn rhoi gwybod

mae Liz Saville Roberts wedi trefnu i gyfarfod cynrychiolwyr o Gwmni Alba Mineral Resources wrth y chwarel ym Montddu ddydd Gwener, Medi 30 2022, am 10am tan 12yp. Bydd Mabon ap Gwynfor AS, Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a chynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn bresennol. Mae gwahoddiad i gynrychiolydd / gynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned i ymuno yn ogystal. Mae angen gwybod os bydd rhywun ar gael i fynychu'r cyfarfod.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

**<u>8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</u>**

**<u>9. Materion Ariannol</u>**

a. Llythyr (24/6/2022) oddi wrth Llywodraeth Cymru angen i ni gwblhau ffurflen 'Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Cynghorau Cymuned a Thref – profforma ar gyfer y datganiad taliadau'. Roeddynt angen gwybod y taliadau rhoddwyd i'r aelodau am y flwyddyn ariannol Ebrill 2021 i Mawrth 2022. Rhoddwyd gwybod iddynt ni chafodd yr aelodau taliadau. Anfonwyd y ffurflen i'r aelodau iddynt gael gwybod y wybodaeth oedd ei angen.

Anfonwyd y wybodaeth i Llywodraeth Cymru (24/6/2022).
Rhoddwyd gwybod i Elfed ap Gomer rhoi'r ffurflen ar ein gwefan.

b. Llythyr (29/6/2022) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.

c. Llythyr (29/6/2022) oddi wrth Sioe Arddwriaethol ac Amaeth Rhydymain a'r Cylch yn diolch am ein rhodd o £200.

ch. Bil (15/7/2022) am £192.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2021/2022.

<u>Penderfynwyd</u> talu'r bil.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/6/2022: £1,141.62.
Balans yn y banc ar 29/6/2022: £8,899.89. (29/6/2021: £6,105.76).

**<u>10. Archwilio</u>**

a. Rhoddwyd Hysbysiad archwilio (Cymraeg a Saesneg) ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau (27/6/2022).

b. Anfonwyd y dogfennau i Archwilio Cymru ar 28/6/2022.

**<u>11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths</u>**

**12. Materion yr Aelodau**

a. Llythyr (14/7/2022 - anfonwyd i'r aelodau) oddi wrth Gerallt yn gofyn am lythyr i Guthrie Jones & Jones i holi beth yw'r diweddaraf ynglŷn â chofrestru Neuadd Llanfachreth. Mae angen tystiolaeth o berchnogaeth y Neuadd iddi roi cais am grant Loteri i wneud gwaith.

Anfonwyd llythyr iddynt ar 15/7/2022.

Cytunodd y Clerc gwneud ymoliadau gyda Archifydd Cyngor Gwynedd i gael gwybod pryd newidwyd enw Cyngor Cymuned Llanfachreth i Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd mae angen gwella Green Lane sy'n mynd ar hyd Bwlch Goriwared o Cae Llucu, Llanfachreth i Ysgwydd y Glyn.

Llofnod: Dyddiad:

--------------